# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Tachwedd 20fed, 2020

Annwyl riant / warcheidwad,

Mae'r tymor yn diflannu'n gyflym, gyda dim ond pedair wythnos ar ôl tan ddiwedd tymor yr hydref. Fel y gwyddoch, rydym wedi gorfod addasu ein trefniadau arferol ac rwy'n hynod ddiolchgar i chi am eich dealltwriaeth wrth i ni orfod gweithredu mewn ffordd wahanol i'r arfer. Isod fe welwch rai o ddigwyddiadau'r wythnosau nesaf:

**24.11.20:** Noson agored y 6ed dosbarth trwy Zoom i rieni a disgyblion Blwyddyn 11. Mae'r manylion wedi eu hanfon trwy lythyr at rieni disgyblion Blwyddyn 11.
**30.11.20:** Colorfoto: Lluniau unigol i Flynyddoedd 8, 9, 10, 11, 12.
**02.12.20:** Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd. Dim ysgol i'r disgyblion.
**07.12.20:** Diwrnod Her. Y 6ed dosbarth yn gweithio adref.
**10.12.20:** Noson rieni Blwyddyn 13. Cyfarfodydd trwy Teams. Daw mwy o fanylion maes o law.
**17.12.20:** Cyngerdd Nadolig rithiol.
**18.12.20:** Diwedd tymor yr hydref.
**04.01.20:** Diwrnod Hyfforddiant Mewn Swydd. Dim ysgol i'r disgyblion.

Bydd eich plentyn yn derbyn crynodeb o gynnydd trwy ap Edulink One cyn diwedd y tymor, a fydd yn gofnod o ymdrech a chyrhaeddiad eich plentyn ymhob pwnc yn ystod y tymor.

Ni fydd noson rieni draddodiadol i ddisgyblion Blwyddyn 8 y tymor hwn. Yn hytrach, fe fydd y crynodeb o gynnydd yn cynnwys sylwadau ysgrifenedig gan bob athro, gan adlewyrchu'r math o adroddiad llafar a fyddai wedi cael ei gyflwyno yn ystod noson rieni.

Yn sgil cyhoeddiad y Gweinidog Addysg yr wythnos diwethaf am ganslo arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yn 2021, ni fydd cyfnod o ffug-brofion ffurfiol yn cael ei drefnu cyn y Nadolig gan fod adrannau angen blaenoriaethu'r dysgu a'r addysgu o ganlyniad i golli cymaint o amser yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf. Mae yna ansicrwydd am natur yr asesiadau dan reolaeth athrawon a fydd yn cael eu paratoi gan CBAC, felly doeth fyddai gohirio asesiadau ffurfiol mewnol tan y gwanwyn, nes inni dderbyn mwy o gyfarwyddiadau am yr asesiadau diwedd blwyddyn gan grŵp cynllunio'r Llywodraeth.

Os bydd disgyblion Blwyddyn 11 yn sefyll arholiadau TGAU Cymraeg a Saesneg Llên ym mis Ionawr, bydd yr adrannau hynny yn cynnal ffug-brofion ar eu cyfer ym mis Rhagfyr. Bydd yr adran Gelf a Graffeg (TGAU) yn cynnal ymarfer 10 awr yn ystod yr wythnos olaf cyn diwedd y tymor.

Caniateir i adrannau osod profion mewnol yn ystod mis Rhagfyr fel rhan o gynllun asesu arferol yr adran er mwyn mesur cynnydd neu adnabod bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Fe fydd hyn yn helpu i lywio'r cynllunio ar gyfer dysgu ac addysgu yn y gwanwyn.

Rhaid canmol y staff a'r disgyblion am ymateb i'r cyfyngiadau COVID-19 mewn modd cadarnhaol ac am addasu eu ffordd arferol o weithio er mwyn parhau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol i'r disgyblion. Mae aelodau'r adran Addysg Gorfforol ac athrawon eraill yn cynnal gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol, mae'r adran

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

Gerdd wedi cynnal cystadleuaeth canwr ifanc a noson rithiol o adloniant cerddorol, ac mae'r adran Ddrama wedi cychwyn clwb drama CA3 yn ystod yr awr ginio.

Diolch i bawb a gyfrannodd at elusen Plant Mewn Angen ddydd Gwener diwethaf. Y cyfanswm a gasglwyd oedd £900.

A fyddech cystal â chysylltu â Mrs Rebecca Rigby: RR@ysgolplasmawr.cymru os nad oes gan eich plentyn ddyfais ddi-wifr bersonol? Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu Chromebook ar gyfer disgyblion sydd heb fynediad i ddyfais ddi-wifr bersonol.

Bu farw Teleri Bevan yn ystod yr wythnos yma. Roedd Teleri yn un o lywodraethwyr cyntaf yr ysgol a gwasanaethodd yr ysgol am flynyddoedd lawer. Yn olynydd i Dan Roberts, Teleri oedd ail gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu. Bu'n gadeirydd cefnogol tu hwnt ac yn eiriolydd gwych dros yr ysgol. Roedd gan Teleri gymeriad cynnes a hoffus, ac roedd yn ffrind da iawn i'r ysgol. Mae'n meddyliau ni gyda'i theulu a'i ffrindiau agos, wedi iddynt golli rhywun arbennig iawn.

Mae'n dda gen i adrodd nad oes gennym ar hyn o bryd yr un achos o COVID-19 ymysg disgyblion a staff yr ysgol, ond mae'n bwysig nad ydym yn llaesu dwylo ac yn llacio ein gweithdrefnau i atal lledaeniad COVID-19. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw'r feirws o'r ysgol, ac felly peidiwch anfon eich plentyn i'r ysgol os oes ganddynt unrhyw un o'r symptomau canlynol:

- tymheredd uchel: mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu eich cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
- peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu dri neu fwy o byliau pesychu mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gall fod yn waeth nag arfer)
- colled neu newid i'ch synnwyr arogli neu flasu: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch arogli na blasu unrhyw beth, neu mae pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer.

Yn wir, os oes gennych unrhyw amheuaeth am gyflwr iechyd eich plentyn, yna ystyriwch yn ofalus cyn anfon eich plentyn i'r ysgol; byddai'n well rhoi diwrnod neu ddau i weld a yw'r symptomau'n datblygu ymhellach nag anfon y plentyn i'r ysgol gydag unrhyw fath o amheuaeth am ei iechyd. Os yw eich plentyn yn dangos symptomau COVID-19, trefnwch brawf COVID cyn gynted â phosib a hunanynyswch nes i chi dderbyn y canlyniad.

Gofynnir yn garedig i chi gysylltu â'r ysgol yn syth os yw eich plentyn neu unrhyw aelod o'r teulu'n profi'n bositif am COVID-19. Bydd angen i bob aelod o'r teulu hunanynysu am 14 diwrnod o bryd cychwynnodd y symptomau. Cysylltwch drwy ffonio'r swyddfa yn ystod oriau ysgol neu e-bostiwch y wybodaeth at post@ysgolplasmawr.cymru. Bydd angen i ni weld copi o'r neges fyddwch chi wedi ei dderbyn yn cadarnhau'r canlyniad positif. Mae unrhyw un sy'n profi'n bositif i COVID-19 yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar yr 11eg diwrnod ar ôl i'w symptomau gychwyn, ac mae'r rheiny sy'n hunanynysu am 14 diwrnod yn rhydd i ddychwelyd i'r ysgol ar y 15fed diwrnod ar ôl eu cyswllt olaf gyda'r achos positif.

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus dan amodau heriol.
John Hayes
(Pennaeth)

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

November 20th, 2020

Dear parent / guardian,

It is difficult to believe that there are only four weeks of the term left before the Christmas holiday period. As you are well aware, we have had to adapt our normal procedures and events in line with the COVID restrictions, and I would like to thank you for your understanding as we have strived to look for other ways of working and in our delivery. Below, you will find a list of events arranged for the next few weeks:

**24.11.20:** A virtual 6th from open evening for parents and pupils in Year 11 via Zoom. Details of the event will have been sent to you separately.
**30.11.20:** Colorfoto: Individual photographs for pupils in Years 8, 9, 10, 11, 12.
**02.12.20:** INSET day. No school for pupils.
**07.12.20:** Challenge day. The 6th form will be working at home.
**10.12.20:** Year 13 parents evening on Teams. Further details will be provided prior to the event.
**17.12.20:** Virtual Christmas concert.
**18.12.20:** End of autumn term.
**04.01.20:** INSET day. No school for pupils.

Every pupil will receive a summary of progress report before the end of term through the Edulink One app. This will be a record of your child's effort and attainment for this term in every subject.

We are unable to provide our traditional parents evening for Year 8 pupils this term. The summary of progress report for Year 8 pupils will include written comments from every teacher, replicating the type of comments offered to parents during a normal parents evening.

In light of the Education Minister's recent announcement on cancelling the 2021 GCSE, AS and A-level exams, we will not be arranging formal mock exams before the end of term as departments are eager to prioritise teaching and learning activities to make up for lost time in the spring and summer terms. There is currently uncertainty about the nature of the assessments that will be prepared by WJEC, and it would be prudent for us to await directions from the Welsh Government design and delivery advisory group before we arrange any formal internal assessments.

If we continue to enter Year 11 pupils for Welsh and English literature GCSE exams in January as planned, both departments will arrange a mock exam in December for those pupils entered for these exams. The Art and Graphics departments will arrange a 10-hour practice for their GCSE pupils during the last week of term.

Individual departments will continue to set routine internal tests in December, which will inform teachers of current pupil progress and highlight gaps in knowledge and understanding, and which will then steer the planning for the new year.

I must commend pupils and staff for responding in such a positive manner to the COVID restrictions. Many have had to adapt their normal procedures to offer a variety of extra-curricular activities. The P.E. department and other

Ffordd Pentrebaen,
Y Tyllgoed,
Caerdydd,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Pennaeth: Mr John D Hayes

Pentrebane Road,
Fairwater,
Cardiff,
CF5 3PZ
029 20 405 499
post@ysgolplasmawr.cymru
@YsgolPlasmawr
Headteacher: Mr John D Hayes

members of staff offer afternoon clubs and activities, the Music department have organised a virtual young singer of the year competition and a virtual evening of musical entertainment, and the Drama department have started a KS3 drama club during lunchtimes.

I would like to thank everyone who contributed to the Children in Need appeal last Friday. We raised £900.

If your child does not have a personal Wi-Fi device, please contact Rebecca Rigby RR@ysgolplasmawr.cymru for us to assist you. The Local Authority has sourced Chromebooks for those pupils who cannot access digital learning resources.

Many of you will have heard of the death of Teleri Bevan this week. Teleri was one of the original members of the school's Governing Body and served the school as a governor for many years. She followed Dan Roberts as the school's second chair of governors. She was a firm advocate for the school and was very supportive in her role as chair. Our thoughts are with Teleri's close family and friends, who are mourning the passing of a very special person.

I am pleased to report that we currently have no recorded positive COVID-19 cases amongst our pupils or staff, but it is crucial that we do not become complacent and relax our COVID-19 rules and regulations. It is essential that we all work together in trying to keep the virus away from the school, therefore please do not send your child to school if they display any of the following symptoms:

- a high temperature: this means you feel hot to touch on your chest or back (you do not need to measure your temperature)
- a new, continuous cough: this means coughing a lot for more than an hour, or 3 or more coughing episodes in 24 hours (if you usually have a cough, it may be worse than usual)
- a loss or change to your sense of smell or taste: this means you have noticed you cannot smell or taste anything, or things smell or taste differently to normal

I would urge you not to send your child to school if there is any doubt about the health of your child. It may be prudent to allow one or two days to see if the symptoms develop further rather than risk sending your child to school with potential COVID symptoms. If your child displays any symptoms, you must arrange a test as soon as possible and self-isolate until the test result is confirmed.

I would kindly ask you to inform the school as soon as possible if your child or any member of your household receives a positive COVID-19 test result. If this occurs, all members of the household are required to self-isolate for 14 days from the onset of the symptoms. Please contact the school office during school hours, or otherwise e-mail: post@ysgolplasmawr.cymru. We will need to receive a copy of the confirmation text or e-mail regarding the positive test. Individuals who test positive for COVID-19 are allowed to return to school on the 11th day from the onset of their symptoms, and those who have been self-isolating for 14 days are allowed to return to school on the 15th day from their last known contact with the positive case.

Thank you for your continued support through these challenging times.

John Hayes
(Headteacher)